Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Nant y Coed
# Rhodfa Ronald
# Cyffordd Llandudno
# Conwy
# LL31 9EU

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Nant y Coed yn nhref fechan Cyffordd Llandudno yn sir Conwy.  Mae gan yr ysgol ddalgylch gwledig y mae'n ei disgrifio fel ardal sydd o dan anfantais yn economaidd.  Mae 169 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr.  O'r rhain, mae 21 o ddisgyblion yn mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser.  Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae gan ryw 30% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 25% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.  Ychydig iawn o blant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg gartref.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi ennill y Wobr Arian Eco Ysgolion yn ddiweddar.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2012.  Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Chwefror 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Nant Y Coed yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,874.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £12,262 a'r isafswm yw £3,081.  Mae Ysgol Nant Y Coed yn safle 39 o'r 60 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn cyflawni safonau da mewn medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- bod ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn;
- bod addysgu yn dda ar draws yr ysgol; a
- bod natur gynhwysol yr ysgol yn hyrwyddo dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar weledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol ac mae'n darparu arweinyddiaeth effeithiol;
- bod y broses hunanarfarnu yn fanwl ac yn amlygu blaenoriaethau sy'n canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau disgyblion;
- bod mentrau newydd yn cael eu croesawu a'u rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn gwella safonau cyflawniad a lles;
- bod y corff llywodraethol yn cefnogi a herio'r ysgol yn dda; a
- bod adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol iawn.

## Argymhellion

A1 Gwella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mwy abl

A2 Gwella medrau Cymraeg disgyblion er mwyn iddynt allu defnyddio'r iaith mewn ystod ehangach o gyd-destunau

A3 Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd yr asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol

A4 Datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer cynorthwywyr addysgu

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Pan fydd disgyblion yn dechrau'r ysgol, bydd medrau sylfaenol y mwyafrif ohonynt islaw'r cyfartaledd, yn enwedig mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud trwy'r ysgol, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac maent yn aml yn dysgu cysyniadau newydd yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau siarad a gwrando cryf. Maent yn ymateb yn rhwydd i gwestiynau athrawon ac yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau. Pan fo gwersi yn ysgogol iawn, mae medrau gwrando a rhesymu disgyblion yn aml yn dda iawn, er enghraifft mewn gwersi dylunio a thechnoleg pan mae disgyblion yn dylunio pyped arch arwr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni'n ddigon da, oherwydd y diffyg her yn y tasgau a osodir ar eu cyfer.

Mae medrau darllen disgyblion yn dda ar y cyfan. Mae disgyblion iau yn dysgu llythrennau a seiniau newydd yn dda. Maent yn adeiladu ar eu dysgu yn effeithiol trwy weithgareddau ymarferol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen cadarn. Defnyddiant y medrau hyn yn effeithiol i ddeall ystyr geiriau anghyfarwydd. Mae rhai disgyblion hŷn yn ymdrin â thestunau sydd â syniadau ac iaith gymhleth. Maent yn trafod hoff awduron a genres gyda brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio llyfrau gwybodaeth yn effeithiol ar gyfer ymchwilio i ffeithiau i'w defnyddio mewn gwaith trawsgwricwlaidd.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn dda ar y cyfan ac yn datblygu'n briodol. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion mwy abl i ysgrifennu darnau estynedig ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

At ei gilydd, mae disgyblion yn dechrau'n dda o ran dysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw eu medrau mewn siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn datblygu'n ddigon cyson wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael trafferth yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i gyd-destunau cyfarwydd ac ymadroddion adnabyddus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, yn 2012, uwchlaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, mewn datblygiad mathemategol, nid oedd cyflawniad disgyblion cystal â chyfartaledd y teulu. O gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd cyrhaeddiad yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac

amrywiaeth ddiwylliannol. Mewn medrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu, roedd cyrhaeddiad yn y 25% uchaf o lefelau ar gyfer ysgolion tebyg, ond yn y 50% is ar gyfer datblygiad mathemategol.

Roedd cyfran y disgyblion mwy abl a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen (deilliant 6) gryn dipyn yn is na chyfartaledd y teulu ar gyfer llythrennedd, iaith a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, ond eto gryn dipyn yn uwch ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) mewn Saesneg yn debyg i gyfartaledd y teulu ar y cyfan. Bu cynnydd nodedig yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg yn ddiweddar, a bu'r gyfran uwchlaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mewn gwyddoniaeth, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig wedi bod islaw cyfran yr holl gymaryddion, heblaw yn 2012 pan oedd ychydig yn uwch.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) gryn dipyn islaw cyfartaledd y teulu ar y cyfan.

Perfformiodd merched yn well na bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn yr holl feysydd medrau, ac yn arbennig mewn datblygiad mathemategol. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn cydweithredu'n dda iawn gyda phob aelod o staff a gyda'i gilydd. Maent yn dilyn arferion yr ystafell ddosbarth yn dda iawn o oedran cynnar. Mae ymddygiad mewn dosbarthiadau, amser chwarae ac amser cinio, ac mewn clybiau cyn ysgol ac ar ôl yr ysgol, yn dda iawn.

Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at gadw'n iach a diogel ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta diet iach a gwneud ymarfer corff. Maent yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn delio'n effeithiol gydag unrhyw achosion o ymddygiad annerbyniol. Mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn y 50% uwch o'r cyfraddau ar gyfer ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf.

Mae disgyblion yn hyderus ac yn dangos lefelau da o hunan-barch. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cymdeithasol a medrau bywyd datblygedig ac maent yn awyddus i ddysgu a datblygu eu hunain ymhellach. Maent yn dangos cwrteisi, parch a gofal at ei gilydd, ac at oedolion ac ymwelwyr.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn ystod o weithgareddau cymunedol. Er enghraifft, yn y clwb 'Porwyr Penwyn' ('Silver Surfers'), mae disgyblion hŷn yn addysgu rhieni a neiniau a theidiau sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg arall.

Mae'r cyngor ysgol a'r eco bwyllgor wedi'u hen sefydlu ac mae disgyblion yn dangos medrau da wrth wneud penderfyniadau. Mae disgyblion yn falch o'u rôl ac yn gweithredu'n gyfrifol gyda staff a'r corff llywodraethol i gynorthwyo gyda datblygiadau yn yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd y profiadau dysgu yn dda ac yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr. Mae'r rhain yn amrywio o fod yn rhai yn yr ysgol i rai y tu hwnt iddi ac maent yn ennyn diddordeb pob disgybl. Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr. Mae eu cynllunio yn nodi medrau pwnc a medrau allweddol a gwnânt ddefnydd effeithiol o gyfraniadau disgyblion wrth gynllunio profiadau dysgu yn ymwneud â thestunau penodol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd priodol yn dda. Mae cynllunio ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau technoleg eraill ar draws y cwricwlwm yn dda iawn. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau dysgu ehangach sy'n cynnwys datrys problemau, gwaith ymholi ac ymchwilio wedi'i sefydlu cystal. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig a medrau eraill ar gyfer y disgyblion mwy abl yn gyfyngedig.

Mae cynlluniau addas ar waith i hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu cymhwyso'n gyson ar draws yr holl weithgareddau. Mae athrawon yn rhoi proffil uchel i hanes, daearyddiaeth, diwylliant a cherddoriaeth Cymru.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys yr Urdd, chwaraeon, cyfrifiaduron, coginio a garddio.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae'n rhoi anogaeth gref i ddisgyblion arbed ynni a chymryd rhan mewn mentrau i 'leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu'. Mae cysylltiadau'r ysgol trwy Brosiect Comenius a'u cysylltiad ag elusennau wedi ychwanegu dimensiwn byd-eang da at brofiadau dysgu.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl athrawon ystod eang o ddulliau a strategaethau addysgu i gymell disgyblion. Mae ansawdd yr addysgu bron bob amser yn dda ar draws yr ysgol ac yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol drylwyr ac ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd datblygu medrau disgyblion. Maent yn fodelau rôl da. Mae pob un o'r staff yn adnabod disgyblion yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y dysgu.

Lle mae'r addysgu'n dda, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, a gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o adnoddau. Mae cyflymder y gwersi'n dda i ennyn diddordeb y disgyblion a'u hysgogi. Pan mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw athrawon yn addasu'r cwricwlwm yn ddigonol nac yn herio disgyblion yn ddigonol, yn enwedig y disgyblion mwy abl. Mae pob un o'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ystafell ddosbarth yn effeithiol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau priodol.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu ac yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn rheolaidd gyda disgyblion. Mae athrawon yn marcio llyfrau yn rheolaidd ac yn gydwybodol. Fodd bynnag, nid yw'r marcio bob amser yn dangos yn glir yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Megis dechrau datblygu y mae'r arfer o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd gan ddefnyddio ystod o ddulliau, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu.

Mae adroddiadau i rieni yn dda a mynegodd rhieni a gofalwyr eu bod yn fodlon â sylwadau personol yr athrawon ynglŷn â'u plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Nant y Coed yn gymuned ddiogel, drefnus a gofalgar, lle caiff pawb ei werthfawrogi. Mae polisïau a threfniadau priodol yn hyrwyddo byw yn iach a lles yn llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn yn yr ysgol, ac maent yn mwynhau bod yno. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant a sicrhau lles disgyblion. Mae'r ffaith fod dosbarth meithrin wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar, er enghraifft, eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder ac agwedd nifer o ddisgyblion targedig at ddysgu.

Caiff disgyblion y cyfle i gyfrannu at ddatblygiadau yn yr ysgol ac maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn eu cymuned leol. Mae'r profiadau dysgu hyn yn gwella hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o ystod eang o wasanaethau arbenigol i wella'r cymorth a'r arweiniad y mae'n ei roi i ddisgyblion. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae cymorth wedi'i dargedu'n glir wedi arwain at fuddion cadarnhaol mewn cyflawniad, ymddygiad ac agweddau. Caiff cynlluniau addysg unigol eu harfarnu'n rheolaidd ar y cyd â disgyblion a rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd croesawgar, sy'n adlewyrchu ethos a gwerthoedd yr ysgol. Mae mannau arddangos a byrddau arddangos yn dathlu amrywiaeth o waith disgyblion ac yn nodi eu cyflawniadau. Mae digonedd o adnoddau o ansawdd da, y mae staff a disgyblion yn eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r mannau dysgu allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n helaeth. Mae pob rhan o'r ysgol yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r staff a'r llywodraethwyr i osod blaenoriaethau strategol penodol ar gyfer gwella sy'n cael eu deall yn glir. Mae effaith yr arweinyddiaeth eisoes yn amlwg yn y gwelliant i'r ddarpariaeth ddysgu a'r defnydd arloesol o dechnoleg i wella cymhelliant ac ymgysylltiad disgyblion yn eu dysgu.

Mae staff yn deall eu rolau yn dda ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r uwch dîm rheoli yn monitro cynnydd yn erbyn targedau penodol yn rheolaidd. Mae'n defnyddio data perfformiad yn effeithiol i gydnabod meysydd i'w gwella, ar gyfer unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion fel ei gilydd. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn cydnabod cynnydd ac yn helpu nodi anghenion datblygiad proffesiynol pellach. Mae'r rhain yn cysylltu'n glir â thargedau a amlygwyd yng nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer rheoli perfformiad cynorthwywyr addysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi a herio'r ysgol mewn modd hynod effeithiol. Maent yn gweithio gydag aelodau staff perthnasol i arfarnu effeithiolrwydd strategaethau amrywiol. Mae'r llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn drylwyr am ddeilliannau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae llywodraethwyr yn deall data yn dda iawn, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i arfarnu cynnydd. Maent yn barod i herio a chefnogi'r ysgol ac yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau disgyblion.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda, gyda phwyslais penodol ar gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion a gwella safonau llythrennedd a rhifedd ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu effeithiol. Mae'r broses hon yn nodi meysydd i'w gwella yn glir ac yn amlygu blaenoriaethau sy'n cyfrannu tuag at safonau ymhellach. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cydnabod cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella. Mae cysylltiad clir rhwng yr adroddiad hwn a chynllun gwella'r ysgol.

Mae staff yn gwneud defnydd da o ddadansoddi data i nodi cynnydd mewn mathemateg, darllen a sillafu bob tymor. Caiff data ei ddadansoddi'n drylwyr ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd er mwyn asesu deilliannau ac effeithiolrwydd yr addysgu. Mae'r rhain yn cyfrannu'n werthfawr at y broses hunanarfarnu ac wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol a gwella safonau. Mae cydlynwyr y cwricwlwm yn monitro cynnydd yn ofalus o fewn eu meysydd ac yn arfarnu effaith strategaethau addysgu amrywiol ar ddeilliannau disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n dda i rannu arfer dda yn yr ysgol a thu hwnt. Mae hyn yn sicrhau bod mentrau newydd a'u heffaith ar gynnydd disgyblion yn cael eu harfarnu.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i safbwyntiau rhanddeiliaid fel llywodraethwyr, rhieni a disgyblion trwy gyfarfodydd ffurfiol, holiaduron a chyngor ysgol y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â bron yr holl feysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau cryf gyda'r llywodraethwyr, y rhieni ac ystod o bartneriaid eraill. Mae cynllunio strategol gyda rhieni ac ysgol uwchradd leol wedi cyfrannu'n dda tuag at gefnogi disgyblion ag agweddau fel gwaith cartref, ymestyn medrau celf a gwella safonau mewn TGCh.

Mae cynllun pontio'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n ddidrafferth i'r ysgol uwchradd gan alluogi parhad mewn dysgu. Mae cydweithredu agos gydag ysgolion cynradd eraill wedi cyfrannu tuag at wella'r broses hunanarfarnu trwy gymharu safonau a deilliannau disgyblion. Mae'r strategaethau hyn wedi helpu i wella darpariaeth a safonau cyflawniad.

Mae gan yr ysgol berthynas agos gyda llawer o asiantaethau allanol sy'n golygu y gellir mynd i'r afael ag anghenion unigol disgyblion yn llawn. Mae'r rhain wedi cyfrannu'n effeithiol at faterion fel gwella presenoldeb disgyblion a chyfranogi mewn dysgu. Mae cysylltiadau effeithiol gyda busnesau a chlybiau chwaraeon lleol i wella cyfleoedd ar gyfer y disgyblion ac ymestyn ystod yr adnoddau sydd ar gael i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda staff yr awdurdod lleol ac ysgolion eraill i safoni deilliannau disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at sicrhau ansawdd ar y cyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol ac mae'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus iawn.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ac mae'r ysgol yn llwyddo i gael grantiau allanol i fynd i'r afael ag anghenion canfyddadwy a rhoi mwy o gymorth i grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn TGCh yn ddiweddar, a bu hyn yn effeithiol o ran gwella defnydd staff a disgyblion o adnoddau, ac mae wedi arwain at safonau gwell. Gwna'r ysgol ddefnydd da o arbenigedd staff i sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan yn llawn yn yr ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae rolau a chyfrifoldebau staff yn glir a phenodol. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn yn helpu i sicrhau addysgu o ansawdd da.

O ystyried y ffordd effeithiol yr aiff yr ysgol ati i ddefnyddio ei chyllid a'i hadnoddau, a'r safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen neu'n uwch) ym medrau cyfunol llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen) yn cyd-fynd â chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Mewn perthynas â pherfformiad ym mhob medr penodol, mae asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn nodi bod cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan ar gyfer medrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu ac ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ond yn is ar gyfer datblygiad mathemategol.

Mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cyd-fynd â chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan yn gyffredinol. Yn 2012, roedd uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg yn dangos tuedd o wella, gyda pherfformiad mewn llefaredd ac ysgrifennu yn gryfach nag ydyw mewn darllen. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod uwchlaw'r holl gymaryddion am y ddwy flynedd ddiwethaf, tra bod perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod islaw'r holl gymaryddion gan amlaf, heblaw yn 2012 pan oedd ychydig yn uwch.

Mae cyfran y disgyblion mwy abl sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen (deilliant 6) yn isel iawn, o gymharu â chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan mewn medrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn uchel iawn mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae cyfran y disgyblion mwy abl sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) fel arfer islaw neu ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan, er ei bod yn llawer agosach at y cyfartaleddau hyn mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn 2012.

Perfformiodd merched yn well na bechgyn o ran cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn yr holl feysydd medrau, ac yn arbennig mewn datblygiad mathemategol. Perfformiodd merched mwy abl yn well na'r bechgyn o ran cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen hefyd, yn arbennig mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae'r patrwm sy'n dangos bod merched yn perfformio'n well na bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig yn parhau, ond gyda'r gwahaniaeth gryn dipyn yn agosach.

O gymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, rhoddwyd yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, yn y 25% uchaf ar gyfer llythrennedd, iaith a chyfathrebu, ac yn y 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, rhoddwyd yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 25% uchaf ar gyfer

Saesneg.  Nid oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp yn llawer llai nag yng ngweddill yr ysgolion yn y teulu ac o gymharu ag ysgolion cynradd ledled Cymru yng nghyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

Cafodd Estyn 69 o ymatebion i'w holiadur i ddysgwyr.  Roedd llawer o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol.  Fodd bynnag, roedd yr ymateb i'r cwestiwn am ymddygiad amser chwarae ac amser cinio gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Teimla pob un o'r disgyblion:

- fod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach; a
- bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da.

Teimla bron pob un o'r disgyblion:

- eu bod yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio;
- eu bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni;
- bod llawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd; a
- bod ganddynt ddigon o offer i wneud eu gwaith.

Teimla'r rhan fwyaf o'r disgyblion:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol; a
- bod y gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Cred llawer o ddisgyblion:

- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth; a
- bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ar yr iard.

Roedd y 32 o ymatebion gan rieni neu ofalwyr i gyd yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ymatebion yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd pob un o'r rhieni a'r gofalwyr a fynegodd farn naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- fod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;

- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion penodol;
- eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiwn neu broblem;
- eu bod yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb; a
- bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Roedd pob un o'r rhieni a fynegodd farn naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol ar y cyfan;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu;
- bod plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn;
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf yn ei addysg; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mike Hayes | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Emmanuel | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llion Huws Elis | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.